

DYFRFFYRDD PRYDAIN

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
dan Adran 14 y Ddeddf. Daeth i rym ar 22/03/2007

## CYFLWYNIAD

### **Dyfrffyrdd Prydain**

Corfforaeth cyhoeddus yw Dyfrffyrdd Prydain (DP) sy'n atebol i'r Adran Amaeth, Bwyd a Materion Gwledig yng Nghymru a Lloegr, ac i Weithrediaeth yr Alban yn y wlad honno. Mae hefyd yn gweithio yn agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae DP yn rheoli rhwydwaith o gamlesi ac afonydd sydd yn 2,000 o filltiroedd o hyd, ac yn 200 mlwydd oed. Ynghyd a cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth cyfrifedig, cyflogaeth, amgylcheddol, cynllunio a diogelwch sy'n effeithio unrhyw sefydliad fodern, mae DP yn cael ei lywodraethu yn benodol gan Ddeddfau Trafnidiaeth 1962 a 1968, ynghyd a llawer o'r Deddfau galluogi camlesi gwreiddiol.

Ein nod yw y bydd, erbyn 2012, wedi creu rhwydwaith dyfrffordd ehangach, egniol, a fydd gan fwyaf yn hunangynhaliol, a fydd yn cael ei ddefnyddio gan ddwywaith yn fwy o bobl nag yn 2002. Fe fydd yn cael ei adnabod fel un o asedau mwyaf gwerthfawr a pwysig y genedl. Bydd ymwelwyr wrth eu boddau gyda ansawdd y profiad, ac o ganlyniad bydd llawer ohonynt yn dod yn gyfranogwyr gweithgar.

### **Manylion Gwefan**

[www.britishwaterways.co.uk](http://www.britishwaterways.co.uk) am wybodaeth corfforaethol

[www.waterscape.com](http://www.waterscape.com) am wybodaeth hamdden

### **1 Cyflwyniad**

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Dyma ein cynllun.

Mae'n disgrifio sut bydd Dyfrffyrdd Prydain (DP) yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, i'r graddau ei fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol gwneud hynny.

Mae'r cynllun hwn yn gosod sut y bydd BW yn rhoi'r egwyddor honno ar waith pan ddarparant wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, ad fe gaiff

gefnogaeth lawn Bwrdd, Prif Weithredwr a Cyfarwyddwyr BW.

## **2 Polisïau, gwasanaethau a mentrau**

2.1 Bydd ein polisïau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac fe gymerwn pob cyfle i sicrhau eu bod yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd.

2.2 Pan fyddwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu neu gyflwyno polisïau, mentrau neu gwasanaethau o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

2.3 Fe sicrhawn bod ein staff sydd yn gysylltiedig a trefnu polisïau a mentrau – a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru – yn ymwybodol o'r Cynllun yma.

## **3 Dogfennau cyfreithiol a chytundebau**

3.1 Bydd dogfennau a chytundebau cyfreithiol i unigolion, sefydliadau neu grwpiau yn cael eu cynnig yn newis iaith y derbynnydd. Bydd mapiau a mewnosodiadau mewn cytundebau sydd wedi eu benthyg neu eu defnyddio drwy drwydded yn ymddangos yn yr iaith wreiddiol.

## **4 Darparu Gwasanaethau**

4.1 Byddwn yn sicrhau bod cyn gymaint â phosibl o'n gwasanaethau ar gael yn Gymraeg – a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

## **5 Safonau ansawdd yn y Gymraeg**

5.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

## **6 DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG**

### **6.1 GOHEBIAETH**

6.1.1 Mae DP yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg â'r Saesneg.

6.1.2 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn Gymraeg, oni ofynnir yn wahanol. Bydd ein hamser ar gyfer ateb yr un peth â'r amser ar gyfer ateb i lythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg.

6.1.3 Caiff pob copi caled o ohebiaeth Gymraeg, neu dwyieithog a anfonir ei lofnodi.

6.1.4 Pan fydd DP yn gohebu yn dilyn cysylltiad dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn Gymraeg, byddwn yn gwneud hynny'n Gymraeg oni fyddwn yn gwybod yn wahanol.

6.1.5 Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grwp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny'n Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.

6.1.6 Yn ddarostyngedig i'r system sgorio a nodir, isod, pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr at sawl derbynydd yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bob derbynydd ei chael yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.

6.1.7 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y bydd y Bwrdd yn cytuno arni, i nodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyr na fydd angen eu cyhoeddi'n Gymraeg, neu'n ddwyieithog (er enghraifft, pan fydd yr ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn).

6.1.8 Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

6.1.9 Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

6.1.10 Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

6.1.11 Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth dros yr e-bost yn ogystal â gohebiaeth bapur.

## **6.2 Gohebu dros y ffôn**

6.2.1 Oherwydd lleoliad prif swyddfa DP, ni fyddai'n ymarferol i staff wedi eu lleoli yn y swyddfa honno i gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, pan fyddwn yn gosod llinellau cymorth, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbysebier hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

6.2.2 Bydd DP yn annog staff sydd wedi eu lleoli yng Nghymru i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac i ddefnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.

6.2.3 Os bydd y galwr yn ffonio llinell uniongyrchol i swyddfa yng Nghymru ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond na all y person sy'n cymryd yr alwad wneud hynny, rhoddir dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol, naill ai i aros i siaradwr Cymraeg ffonio nôl ar amser wedi ei gytuno, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno eu hymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr neu dros yr e-bost.

## **7 Cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yng Nghymru**

7.1 Croesawn gyfraniadau yn Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus neu gyfarfodydd a fynychir drwy wahoddiad, sydd wedi eu trefnu gan DP yng Nghymru.

7.2 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog, ac yn gwahodd mynychwyr sy'n dymuno siarad Cymraeg i'n hysbysu ymlaen llaw, er mwyn i ni drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

7.3 Bydd gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac adroddiadau ynglyn â'r cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog lle maent ar gael.

7.4 Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru, bydd DP yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf a byddwn am sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

7.5 Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, bydd DP yn cynnig iddynt barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r mater drwy ohebu yn Gymraeg.

7.6 Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i'r staff yn ein swyddfeydd tu allan i Gymru i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **DELWEDD GYHOEDDUS DYFRFFYRDD PRYDAIN**

## **8 Hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru**

8.1 Bydd holl hunaniaeth gorfforaethol DP yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd y wybodaeth ar ddeunydd argraffedig DP sydd i'w ddefnyddio yng Nghymru, neu eu defnyddio o Loegr ond lle mae'r derbynnnydd yng Nghymru, yn ddwyieithog. Mae hyn yn

cynnwys deunydd fel cardiau busnes, pasiau, slipliau cyfarch, gwahoddiadau a cerbydau.

## **9 Cyhoeddiadau a deunydd argraffedig**

9.1.1 Bydd cyhoeddiadau neu deunydd argraffedig DP ar gyfer dosbarthu, gwerthiant neu ddefnydd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog, yn ddarostyngedig i'r system sgorio a nodir isod. Ein harfer safonol bydd cyhoeddi'r ddwy iaith gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd, wedi eu cyhoeddi a'u lansio ar yr un diwrnod a wedi eu dosbarthu a'u harddangos gyda'i gilydd yng Nghymru. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

9.1.2 Os na fydd y dogfennau ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad un iaith – a bydd pris dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.

9.1.3 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan y Bwrdd, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

9.1.4 Bydd DP yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n nodi sut y byddwn yn cynyddu argaeledd cyhoeddiadau dwyieithog, dros gyfnod o amser.

## **9.2 Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig**

9.2.1 Byddwn am sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru yn gyfan gwbl ddwyieithog, yn ddarostyngedig i'r system sgorio a nodir isod. Fel arfer, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd, wedi eu cyhoeddi a'u lansio ar yr un diwrnod a wedi eu dosbarthu a'u harddangos gyda'i gilydd yng Nghymru. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

9.2.2 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan y Bwrdd, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig mewn fersiynau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

9.2.3 Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i gynyddu nifer y ffurflenni sydd ar gael yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

## **10 Gwefannau**

10.1 Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

10.2 Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n nodi sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan, dros gyfnod o amser.

10.3 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd ynglyn â dylunio gwefannau.

10.4 Pan fyddwn yn cynnwys cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu cynnwys ar yr un pryd, os ydynt ar gael.

## **11 Hysbysiadau i'r Wasg**

11.1 Cyhoeddir hysbysiadau yn benodol i'r wasg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru yn Gymraeg lle mae terfynau amser yn caniatáu hynny.

## **12 Gweithgareddau cyhoeddusrwydd**

12.1 Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol) eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd - a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.

12.2 Bydd hysbysebion a osodir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, lle mae terfynau amser yn caniatáu.

12.3 Bydd arddangosfeydd parhaol neu dros dro, stondinau sioe a byrddau gwybodaeth i'w defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog.

12.4 Bydd ymchwil marchnata neu arolygon cwsmer a ymgwymerir gan, neu ar ran DP yng Nghymru, yn defnyddio ffurflenni dwyieithog, a fe fydd y cyfwelai yn cael y dewis o gael ei gyfweld yn Gymraeg neu yn Saesneg.

12.5 Pan yn mynychu arddangosfeydd neu digwyddiadau yng Nghymru, ein harfer safonol bydd sicrhau fod siaradwr Cymraeg cymwys yn bresennol, fel y bo'n briodol.

### **13 Arwyddion**

13.1 Bydd DP yn sicrhau bod unrhyw un o'n harwyddion parhaol a thros dro, byrddau gwybodaeth, hysbysiadau rhybudd a hysbysiadau cyfreithiol yn ddwyieithog yng Nghymru. Bydd unrhyw eitemau newydd yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog, gyda hen eitemau yn cael disodli gan rhai dwyieithog pan mae angen eu newid.

13.2 Bydd yr holl arwyddion a hysbysiadau swyddogol o fewn adeiladau yng Nghymru yn ddwyieithog.

13.3 Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd ar pob un o'n harwyddion a'n hysbysiadau yng Nghymru.

### **14 Hysbysiadau swyddogol, cyhoeddus a recriwtio**

14.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a ddsberthir yng Nghymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

14.2 Bydd hysbysiadau ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg.

14.3 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un a chânt eu cyhoeddi fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

14.4 Gellir cyhoeddi yn Saesneg hysbysiadau recriwtio sy'n ymddangos mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg a ddsberthir ledled y DU, oni bai ei bod yn hanfodol i ddeiliad y swydd siarad Cymraeg, ac os hynny, gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg.

### **Gweithredu'r Cynllun**

## **15 Staffio**

15.1 Byddwn yn nodi'r gweithfannau a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithfan neu dîm, neu fe all fod ynghlwm wrth swydd benodol.

15.2 O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliadau i sefydlu nifer y staff a all siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, yn ogystal â lefel eu gallu, a'u lleoliad (yn cynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Byddwn hefyd yn adnabod staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

15.3 Caiff canlyniadau'r ddau ymarferiad hyn eu cymharu er mwyn nodi gweithfannau lle mae prinder staff sy'n gallu siarad Cymraeg.

15.4 Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

## **16 Recriwtio**

16.1 Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol bod ymgeisydd yn siarad Cymraeg yn rhugl, nodir hyn yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion.

16.2 Lle na ellir canfod ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, anogir y sawl a benodir i ddysgu Cymraeg.

16.3 Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn *hanfodol*, ond lle gellir caniatáu amser iddo ddysgu'r iaith. Mewn achosion o'r fath, bydd y gallu i ddysgu'r iaith hyd at y lefel benodol o fedrusrwydd, o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno, yn un o amodau ei gyflogi.

16.4 Ar gyfer ein swyddfeydd tu allan i Gymru, ar gyfer unrhyw swyddi sy'n cynnwys cyswllt sylweddol a rheolaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried p'un a yw bod yn rhugl yn Gymraeg yn sgil ddymunol neu'n hanfodol – a nodir hyn yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion.

## **17 Hyfforddiant staff a chyfleoedd**

17.1 Bydd DP yn cefnogi gweithrediad y cynllun yma drwy annog a chefnogi staff sydd am ddysgu Cymraeg, neu am wella eu gallu i siarad Cymraeg. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sydd a chyswllt sylweddol a rheolaidd gyda siaradwyr Cymraeg fel rhan o'u gwaith.

## **18 Cyfieithu**

18.1 Bydd DP yn defnyddio cyfieithwyr cymwys proffesiynol i helpu gyda darparu'r cynllun.

## **19 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

19.1 Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

19.2 Wrth i ni ddatblygu a phrynu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu byddwn yn ystyried yn llawn *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog y Bwrdd*.

## **20 Gweithio mewn Partneriaeth**

Dim ond at bartneriaethau ffurfiol sy'n delio â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru y mae'r isod yn cyfeirio ato.

20.1 Pan fydd DP yn arwain o fewn partneriaeth yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

20.2 Pan yn ymuno â phartneriaeth yng Nghymru mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn ni yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

## **21 Trefniadau mewnol**

21.1 Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain.

21.2 Y Cyfarwyddwr Marchnata, Cysylltiadau a Gwasanaethau fydd yn gyfrifol am weithrediad, cydlyniant a monitro'r cynllun. Bydd cyfarwyddwyr a rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau o'r cynllun sydd yn berthnasol i'w adrannau a'u timoedd.

21.3 Byddwn yn paratoi, ac yn diweddarau yn barhaus cynllun gweithredu manwl, y cytunir arni gan y Bwrdd, gan nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu yn weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu mor fuan â phosib yn dilyn y dyddiad hwnnw. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

21.4 Cyhoeddir y cynllun hwn i holl staff DP, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd linc i'r cynllun ar gael drwy'r gwefannau canlynol:  
[www.britishwaterways.co.uk](http://www.britishwaterways.co.uk)  
[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

21.5 Bydd DP yn trefnu sesiynau briffio ar gyfer y staff hynny y bydd y cynllun yn effeithio ar eu gwaith dydd i ddydd.

21.6 Fe fyddwn yn ymgymryd ag unrhyw fath o gyswllt efo'r cyhoedd yng Nghymru, na sydd wedi ei ddisgrifio'n benodol yn y cynllun hwn, mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn cynllun.

## **22 Monitro â'r Broses Adrodd**

22.1 Bydd DP yn monitro'r cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun yn barhaol i sicrhau fod yr ymrwymiad i gydraddoldeb ieithyddol â'r targedau yn y cynllun gweithredu yn cael eu cyrraedd.

22.2 Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar eu cais.

22.3 Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan y Cyfarwyddwr Marchnata, Cysylltiadau a Gwasanaethau, a bydd crynodeb o berfformiad DP o ran gweithredu'r cynllun yn cael ei gynnwys yn ei adroddiad blynyddol statudol.

## **23 Adolygu a Diwygiadau**

23.1 Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu pob 4 blynedd o'r diwrnod cymeradwyo.

23.2 O bryd i'w gilydd, efallai bydd angen i DP adolygu'r cynllun, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun, oherwydd newidiadau o fewn y sefydliad, neu am unrhyw reswm arall.

23.3 Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## **24 Awgrymiadau a Cwynion**

24.1 Dylid cyfeirio unrhyw awgrymiadau a/neu cwynion am y cynllun at:

Dyfrffyrdd Prydain  
Customer Service Centre  
British Waterways  
64 Clarendon Road  
Watford, WD17 1DA

F 01923 201120  
Ff 01923 201300

E-bost: [enquiries.hq@britishwaterways.co.uk](mailto:enquiries.hq@britishwaterways.co.uk)